# Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013

**2013 dccc 2**

*Pwerau a chyfrifoldebau*

## 14 Dyletswyddau yr Asiantaeth Safonau Bwyd

(1) Rhaid i'r ASB—

(a) wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf hon, roi sylw i'r canllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru;

(b) cyhoeddi'r materion y mae rhaid i awdurdod bwyd roi sylw iddynt wrth lunio ac adolygu rhaglen arolygu o dan adran 2 (pan fo'r materion hynny wedi eu cymeradwyo gan Weinidogion Cymru;

(c) cyhoeddi'r meini prawf sgorio a ddefnyddir i roi sgôr hylendid bwyd o dan adran 3;

(d) ar ddiwedd cyfnod o 1 flwyddyn sy'n dechrau pan fydd y cynllun yn cychwyn, a phob cyfnod dilynol o 1 flwyddyn, gynnal adolygiad o weithrediad y system apelau a sefydlir o dan adran 5 yn ystod y cyfnod hwnnw;

(e) ar ddiwedd cyfnod o 1 flwyddyn sy'n dechrau pan fydd y cynllun yn dechrau, a phob cyfnod dilynol o 3 blynedd, adolygu fel arall sut y rhoddwyd ar waith y cynllun sgorio bwyd a sefydlwyd o dan y Ddeddf hon yn ystod y cyfnod hwnnw a sut y bu iddo gael ei weithredu;

(f) gwneud argymhellion i awdurdodau bwyd i'w cynorthwyo i gydymffurfio â'u cyfrifoldebau o dan y cynllun;

(g) hybu'r cynllun i sefydliadau busnes bwyd a defnyddwyr yng Nghymru;

(h) darparu sticeri sgôr hylendid bwyd ar y ffurf ragnodedig i awdurdodau bwyd yn ddi-dâl.

(2) Heb fod yn hwyrach na 3 mis ar ôl diwedd y cyfnod y mae adolygiad o dan is-adran (1)(d) yn ymwneud ag ef, rhaid i'r ASB osod adroddiad gerbon Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n cynnwys—

(a) manylion am yr adolygiad a ymgymerwyd ag ef;

(b) yr argymhellion dros newid, os oes rhai, i'r system apelau y gwêl eu bod yn briodol a'i resymau dros ddod at y casgliad hwnnw.

(3) Heb fod yn hwyrach na 3 mis ar ôl diwedd y cyfnod y mae adolygiad o dan is-adran (1)(e) yn ymwneud ag ef, rhaid i'r ASB osod adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n cynnwys—

(a) manylion am yr adolygiad yr ymgymerwyd ag ef;

(b) yr argymhellion dros newid, os oes rhai, i'r cynllun sgorio hylendid bwyd y gwêl eu bod yn briodol a'i resymau dros ddod at y casgliad hwnnw.

(4) Rhaid i'r ASB anfon copi o bob adroddiad a lunnir o dan yr adran hon at Weinidogion Cymru.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 14 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 27(2)**

**I2** A. 14 mewn grym ar 28.11.2013 gan O.S. 2013/2617, **ergl. 3(h)**

## 15 Pwerau a chyfrifoldebau eraill awdurdodau bwyd

(1) Rhaid i awdurdod bwyd anfon gwybodaeth a ragnodir at weithredwyr sefydliadau busnes bwyd newydd yn ei ardal.

(2) Rhaid i'r wybodaeth honno gael ei hanfon at weithredwr o fewn 14 o ddiwrnodau o wneud pa un bynnag o'r pethau canlynol sy'n gymwys—

(a) cofrestri sefydliad y gweithredwr gan yr awdurdod fwyd o dan Erthygl 6 o Reoliad (EC) 852/2004 (neu ddarpariaeth gyfatebol ar gyfer cofrestru sefydliadau busnes bwyd sy'n cymryd lle'r ddarpariaeth honno), neu

(b) gweithredwr y sefydliad yn gwneud cais i'r awdurdod bwyd am gymeradwyaeth o dan Erthygl 4 o Reoliad (EC) 853/2004 (neu ddarpariaeth gyfatebol ar gyfer cymeradwyo sefydliadau o'r fath sy'n cymryd lle'r ddarpariaeth honno).

(3) Wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf hon, rhaid i awdurdod bwyd roi sylw—

(a) i argymhellion a wneir gan yr ASB;

(b) i ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 23 o'r Ddeddf hon.

(4) Rhaid i awdurdod bwyd wneud trefniadau i orfodi'r rhwymedigaethau sy'n cael eu gosod gan y Ddeddf hon ar sefydliadau yn ei ardal.

(5) Rhaid i awdurdod bwyd adolygu gweithrediad y cynllun sgorio hylendid bwyd yn ei ardal—

(a) o bryd i'w gilydd, gyda golwg ar sicrhau bod y meini prawf sgorio yn cael eu hasesu'n deg ac yn gyson;

(b) ar gais yr ASB, er mwyn cynorthwyo'r ASB i werthuso'r cynllun fel sy'n ofynnol gan adran 14(d).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 15 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 27(2)**

**I4** A. 15(1) mewn grym ar 28.10.2013 at ddibenion penodedig gan O.S. 2013/2617, **ergl. 2(f)**

**I5** A. 15(1) mewn grym ar 28.11.2013 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2013/2617, **ergl. 3(i)**

**I6** A. 15(2)-(5) mewn grym ar 28.11.2013 gan O.S. 2013/2617, **ergl. 3(i)**

## 16 Cyfrifoldebau eraill gweithredwyr sefydliadau busnes bwyd

Rhaid i weithredwr sefydliad busnes bwyd—

(a) darparu unrhyw wybodaeth y mae angen rhesymol amdani ar awdurdod bwyd i'w alluogi i lunio sgôr hylendid bwyd ar gyfer y sefydliad;

(b) fel arall rhoi pob cymorth rhesymol i awdurdod bwyd er mwyn ei alluogi i lunio sgôr hylendid bwyd ac arfer ei swyddogaethau eraill o dan y Ddeddf hon.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I7** A. 16 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 27(2)**

**I8** A. 16 mewn grym ar 28.11.2013 gan O.S. 2013/2617, **ergl. 3(j)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, Croes Bennawd: Pwerau a chyfrifoldebau.